CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

Yn union cyn y cyfarfod, gan ddechrau'n brydlon am 6.45 pm, esboniodd Mr O Jones o Gyngor Sir Ceredigion syniad y cynllun 'Mabwysiadu Llwybr'. Cytunodd i anfon copïau digidol o'r dogfennau a chopïau caled o'r mapiau llwybrau. Cytunwyd y dylid gosod poster ar hysbysfyrddau pentrefi, y ddalen FB a'r wefan.

*Ymunodd y Cyng J Hawkes â'r cyfarfod.*

Diolchwyd i Mr Jones am ei gyflwyniad a gadawodd y cyfarfod.

Yna cyflwynodd y Rhingyll Delme Jones o Heddlu Dyfed Powys ei hun a PCSO S Jones. Esboniodd mai ef oedd y Rhingyll newydd yn gyfrifol am y Tîm Heddlu Cymdogaeth dros yr ardal. Dywedodd bod lefelau troseddu yn y pentrefi yn isel iawn ar y cyfan, ond y dylai unrhyw un sy'n gofidio ffonio 101 i ddweud am sefyllfa nad yw'n argyfwng i adael neges i'r tîm plismona lleol a 999 mewn argyfwng. Roedd ei gyfeiriad e-bost gan y Clerc hefyd. Diolchwyd i'r Rhingyll Jones a PCSO S Jones am eu hamser a gadawsant y cyfarfod.

*Ymunodd y CS H Lewis â'r cyfarfod.*

Yna ymunodd pedwar aelod o Bwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llechryd â'r cyfarfod. Siaradodd Ms N Redmond ar ran y grŵp gan ddiolch i'r Cyngor am ei gyfraniad i ddigwyddiad yr haf. Dywedodd i'r digwyddiad fod yn llwyddiant mawr a bod pawb a oedd yno wedi mwynhau. Yna darllenodd lythyr oddi wrth y grŵp yn mynegi siom y grŵp, fel gwirfoddolwyr, wrth glywed cwyn honedig gan un o Gynghorwyr Cymuned Llangoedmor am agoriad y digwyddiad gan Faer Aberteifi. Nodwyd bod y sylwadau fod y Maer yn bresennol yn gwisgo Cadwyn ei Swydd wedi digwydd cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ond bod cytundeb wedi bod mai mater ydoedd i'r Cyngor llawn a hynny yn wir ar agenda'r noson. Esboniwyd nad oedd cwyn wedi'i gwneud gan Gyngor Cymuned Llangoedmor, ac er y gallai cynghorwyr unigol wneud sylwadau personol ni ddylai unrhyw gynghorydd wneud sylwadau ar ran y Cyngor heb awdurdod y Cyngor wedi'i ddirprwyo. Nodwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod yn llawn fel rhan o'r agenda ac y byddai'r Cyng A Edwards yn mynd ag adroddiad yn ôl i Bwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llechryd. Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

Dechreuodd Cyfarfod llawn y Pwyllgor am 7.20pm.

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl nos Lun 5 Medi 2016**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Mrs Amanda Edwards, Mrs Jina Hawkes, Colin Lewis, Ken Symmons, Iwan Davies, Hywel Davies, Bryan Rees, Peter Hazzelby

CS H Lewis

Clerc

Aelodau o'r Cyhoedd: Dim

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Eleri Davies.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim**.**

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn cofnodion 4.07.16 fel cofnod cywir ar ôl newid y cofnodion i adlewyrchu cais y Cyng P Hazzelby am gael ei ychwanegu at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Mrs J Hawkes a'i basio'n unfrydol.

Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Cynllunio ar 25.07.16 – i gael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio.

**7. Materion yn Codi**

Roedd yr holl faterion roedd angen eu trafod ar yr agenda.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 25.07.16 | Lewlec Electrical Engineering | Gwaith ar y bloc toiledau | 594 | | TALWYD TALWYD |
| | Abacus Cleaning Services | Glanhau'r bloc toiledau Mehefin | 170 | | TALWYD |
| | Eglwys Llangoedmor | Hurio ystafell yr eglwys | 57 | | TALWYD |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r neuadd | 15 | | TALWYD |
| 5.09.16 | Cyng G Evans | Ad-daliad am gloeon i'r bloc toiledau | 37 | | |
| | Ms M Jones | Cyfieithu | 120 | | |
| | Swallow Office Supplies | Amlen lamineiddio | 14.39 | | |
| | Cyng A Edwards | Allweddi ychwanegol i'r bloc toiledau | 15.6 | | |
| | Abacus Cleaning Services | Glanhau'r bloc toiledau Gorff/Awst a'r gysgodfan bysiau Awst | 378 | | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y cartref Gorff/Awst | 50 | | |
| | Siec i gael ei pharatoi pan fydd enw'r Cyfrif Elusen wedi'i benderfynu'n derfynol gyda'r banc | | 25 | | |
| 30.09.16 | S E Houghton | Cyflog Awst | 322.53 | AS | |
| | | | 1798.52 | | |

Gweddill wedi'i gymhwyso cyfrif y Trysorydd ar 31.0716: £21319.09
Gweddill cynilion Instant Access ar 9.06.16: 993.67
Cynigiwyd: Cyng B Rees, eiliwyd Cyng A Edwards, cytunwyd yn unfrydol.

Nodwyd bod y cerdyn banc wedi cyrraedd.

*Plac Enw'r Pentref*
Dywedodd y Cyng K Symmons ei fod wedi siarad â gweithwyr CSC a oedd yn ailosod y plac enw ar ôl ei niweidio gan gerbyd. Sylwyd bod yr arwydd mewn cyflwr gwael iawn a byddent yn holi i weld a ellid cael yn un ei le a faint fyddai'r gost, os o gwbl.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Dyddiad y Gyllideb*
Roedd diweddariad o'r gyllideb wedi'i anfon o gwmpas cyn y cyfarfod. Dywedodd y Clerc mai amcangyfrif yn unig oedd o wariant tan ddiwedd y flwyddyn a'i fod yn cynnwys y siglen newydd a fwriedid fel eitem gyfalaf. Gofynnwyd i'r Clerc argraffu copïau o ddiweddariad y gyllideb nesaf.

*Diwedd y Flwyddyn*
Yn ôl y disgwyl, roedd y Cyngor wedi cael adroddiad archwilio wedi'i gymhwyso oherwydd mater yr Elusen. Mae'r Clerc yn ymddiheuro am ysgrifennu ffigur anghywir ar y ffurflen, ond roedd yr Archwilydd wedi cadarnhau nad oedd hyn yn effeithio ar y ffigurau 'gweddill a ddygwyd ymlaen', ac felly nid oedd angen gwneud dim.

*Ymholiad HMRC PAYE* – Dim ymateb wedi dod hyd yn hyn.

*HMRC TAW/Elusen* – Sylwyd bod tîm TAW arbenigol o HMRC yn delio â hyn oherwydd bod y mater mor gymhleth, a byddai unrhyw ymateb yn cymryd mwy o amser.

*Ymwelwyr Pwysig*
Nodwyd y neges e-bost oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi a llythyr oddi wrth Bwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llechryd yn mynegi pryder am gŵyn honedig ynglŷn ag agor digwyddiad yn y pentref gan Faer Aberteifi yn gwisgo Cadwyn ei Swydd. Awgrymwyd bod cwrteisi yn mynnu y dylai Clerc yr ardal groesawu gael gwybod am unrhyw ymweliad ffurfiol gan gynrychiolydd Cyngor arall a gofyn am ganiatâd os oedd regalia i gael eu gwisgo. Nid mater o gyfraith oedd hyn, ond arfer cwrtais cyffredin. Cytunwyd nad oedd Cyngor Cymuned Llangoedmor wedi gwneud cwyn o unrhyw fath am y mater hwn.

Atgoffwyd y Cynghorwyr i gyd yn barchus, er bod ganddynt hawl berffaith i fynegi barn am unrhyw fater (gan roi sylw dyladwy, wrth gwrs, i Ddull Ymarfer y Cyngor), y dylid gwneud yn glir mai eu barn bersonol hwy oedd hynny, nid barn y Cyngor.

Cadarnhawyd hefyd wrth y Cynghorwyr, oni bai iddynt gael awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Cyngor, na ddylent wneud sylwadau, ar ran y Cyngor i unigolyn, cwmni, awdurdod na sefydliad arall.

Gofynnwyd a oedd angen hyfforddiant Cynghorwyr, ond gan na fu unrhyw enw(au) ynglŷn â'r gŵyn, y byddai angen i'r Cynghorwyr i gyd gael hyfforddiant. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Tref Aberteifi yn dweud nad oedd Cyngor

Cymuned Llangoedmor wedi cwyno o gwbl am y mater. Cytunwyd hefyd, dan amgylchiadau arferol, y byddai'r Cyngor Cymuned yn disgwyl dilyn arfer cwrtais cyffredin.

**GWEITHREDU:** Ysgrifennu at y Cyngor Tref a rhoi datganiad byr i holl Gynghorwyr Llangoedmor ynglŷn â gwneud sylwadau ar ran y Cyngor.

Atgoffa y byddai'r Clerc ar wyliau o 8 i 19 Medi, cynwysedig.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Cadarnhawyd bod gwaith trwsio wedi'i wneud ar brif bont yr afon.

Roedd CSC wedi cadarnhau y byddai'n gosod arwydd 'dim ffordd drwodd' ar ddiwedd y lôn i Wernynad pan fyddai arian ar gael.

**10. Mwynderau**
*Parc ceir*
Roedd y llwyni wedi'u tocio a'r blychau blodau wedi'u cymhennu.

*Bloc Toiledau*
Roedd Dŵr Cymru wedi cadarnhau nad oedd dŵr yn gollwng. Byddai cloeon yn cael eu rhoi ar ddrysau fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Byddai'r Clerc yn cadw'r allweddi, a Mr E Rees a swyddfa Neuadd y Cwrwgl.

Roedd gwaith gwella wedi'i nodi i ddod â system drydan y bloc toiledau i fyny i'r safon a dyfynbris wedi cyrraedd. Cytunwyd bod angen dyfynbrisiau pellach.
**GWEITHREDU:** Manylion cyswllt trydanwyr lleol dibynadwy i gael eu hanfon at y Clerc, a byddai hi'n ymchwilio i hynny.

*Ardal y Banc Poteli*
Dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi gofyn am wacau'r banc ddwywaith yn ychwanegol mewn 10 mis ac na fyddai hynny'n golygu newid yn y drefn. Cytunwyd yn gyffredinol fod yr ardal yn weddol gymen. Gofynnwyd a fyddai'r banciau poteli'n cael eu symud pe bai ailgylchu gwydr wrth y drws yn dechrau.
**GWEITHREDU**: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Gosodiad goleuadau Nadolig yn yr Eglwys*
Y Cadeirydd i fynd ar ôl y dyfynbris. Y Cyng Mrs A Edwards i holi'r trydanwr pe bae'n ei weld.
**GWEITHREDU:** Mynd ar ôl y trydanwr GAN: Y Cadeirydd a'r Cyng Mrs A Edwards

*Elusen y cae chwarae/ CBC*
Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor barhau i ariannu cynnal y tir a'r gwaith trwsio angenrheidiol er mwyn diogelwch (heb gynnwys y siglen nes i hynny gael ei drafod gyda'r Elusen a HMRC yn ymateb i'r sefyllfa TAW) nes byddai'r arian ar gyfer yr Elusen wedi'i drefnu. Cytunwyd yn unfrydol.

*Yr Hen Eglwys*
Roedd llwyni, drain a phlanhigion dringo wedi gordyfu ac yn gwneud pethau'n beryglus o gwmpas olion yr eglwys, a byddai Mr Harman yn cael cais i docio'r rheiny. Byddid yn gofyn iddo hefyd dorri'r coed ynn ifanc sy'n tyfu drwy'r muriau oherwydd gallai'r rheiny achosi niwed i'r adeiladwaith.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Mr Harman GAN: Cyng B Rees

Roedd yr Eglwys yng Nghymru wedi dweud mai cyfrifoldeb y prydlesai (y Cyngor) oedd archwilio ymylon, cerrig beddi a chofebau. Roedd y Cyng B Rees yn garedig wedi cynnig gwneud archwiliad gweledol, ddwywaith y flwyddyn, a'r Clerc yn cadw'r canlyniadau at ddibenion yswiriant. Y sawl a oedd wedi talu am osod yr ymylon a'r cofebau, neu eu disgynyddion, fyddai'n gyfrifol am drwsio. Roedd y Clerc wedi gofyn i'r Eglwys yng Nghymru am eglurhad am y drefn ofynnol pe bae cofebau'n anniogel.
Cadarnhaodd y Cyng B Rees ei fod wedi gwneud yr archwiliad gweledol cyntaf ar 04.09.16 ac wedi gweld bod yr ymylon, y cerrig beddi a'r cofebau i gyd yn ddiogel.

*Contract torri porfa*
Cytunwyd y dylid holi am ddyfynbrisiau ar gyfer tymor 16/17.
**GWEITHREDU:** Dechrau'r broses GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n Parhau**
*Gwylio Cyflymder*
**GWEITHREDU***:* Y Clerc i fynd ar ôl gwybodaeth gan CSC

*Cynllunio mewn Argyfwng*
Yn parhau.

Gofynnwyd a allai'r Cyngor baratoi rhyw fath o lythyr newyddion. Ar sail profiad y gorffennol, teimlwyd yn gyffredinol y byddai hyn yn golygu llawer iawn o waith.
**GWEITHREDU:** Eitem ar agenda mis Medi GAN: Y Clerc

*Llythyr Newyddion*
Cytunodd y Cyngr Mrs A Edwards a Mrs J Hawkes i edrych ar gost sylfaenol ar gyfer y gyllideb, ac ar sail eu llwyth gwaith personol byddent yn fodlon cynhyrchu copi prawf ym mis Ebrill/Mai 2017.
**GWEITHREDU:** Costau at ddibenion y gyllideb GAN: Cyngr Mrs A Edwards a Mrs J Hawkes.

*Diffibrileiddiwr*
Hyfforddiant
**GWEITHREDU**: Cyng Mrs A Edwards i drefnu.

*Pentref yn ei Flodau*
Roedd cysylltiad wedi bod gyda CSC ynglŷn â safleoedd posibl. Os nad CSC oedd yn berchen yr ymylon ffyrdd, byddid yn cysylltu â'r perchnogion.

*Photothon*
Wedi'i ohirio nes bydd hysbysiad pellach.

**12. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth Cyflwyno*
Dywedwyd bod y Gwasanaeth Cyflwyno wedi'i drefnu ar gyfer 8 Hydref yn Eglwys Llechryd, ac yna dadorchuddio'r plac yng Nghroes-y-llan. Roedd rhai clerigwyr wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Cytunwyd y byddai'r dadorchuddio yng Nghroes-y-llan am 10am a'r gwasanaeth yn Llechryd i ddilyn am 10.30am. Byddai'r Cyng B Rees yn gofyn i'r ysgol a ellid defnyddio neuadd yr ysgol ar gyfer lluniaeth ysgafn ar ôl y digwyddiad.
Roedd ATC wedi dweud y byddai'n fraint iddynt gael bod yn bresennol. Cytunwyd gan bawb a oedd yn bresennol na fyddid yn derbyn cynnig ATC i ddarparu aelod i ganu'r corn. Nid oedd Cadetiaid Môr Abergwaun a Chadetiaid y Fyddin yn Aberteifi wedi ymateb hyd yma. Cadarnhawyd y gallai baneri'r Lleng Frenhinol Brydeinig a Chymdeithas y Llynges Frenhinol gael eu cario ac y byddai'r Cadeirydd yn rhoi gwahoddiad i Lywydd y Lleng Frenhinol Brydeinig i fod yn bresennol.
Er nad oedd y Cyngor yn dymuno gosod plethdorchau y tro hwn, cytunwyd i archebu plethdorch ar gyfer Sul y Cofio.
Byddai'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu yn y cymunedau.
**GWEITHREDU:** Parhau'r trefniadau GAN: Y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc.

*Cynnau'r Goleuadau Nadolig*
**GWEITHREDU:** Y Cyng B Rees i gadarnhau'r dyddiad gyda'r ysgol

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**

Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru - Medi - Rhagfyr 2016

Protocol Ymwneud Cyhoeddus Ceredigion

Darparu tai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru

Ynni Cymunedol – Digwyddiad New Horizons ddydd Iau 15 Medi

Y newyddion diweddaraf gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Llythyr y Pwyllgor Safonau a Moeseg am y dull gweithredu

Digwyddiad ymgynghori busnes dros frecwast – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ymgynghoriad ar gyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 2017-18

Polisi Cynllunio Cymru / Holiadur

Ymgynghoriad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol
Holiadur Llesiant yng Ngheredigion

Nodwyd gohebiaeth.

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Tynnwyd sylw gan y Cyng I Davies at grantiau sydd ar gael i fusnesau.
Mynegodd y Cyng C Lewis ei ofid am y chwyn sy'n tyfu dros y llwybr ar hyd wal Glanarberth.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3.10.16 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.*